Ysgol Gyfun Garth Olwg

Pennaeth / Headteacher
Mrs. A. Williams B.A., C.P.C.P

Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ **01443 219580** 🖷 **01443 219596**
gweinyddol@campwsgartholwg.org.uk
www.gartholwg.co.uk

4 Chwefror, 2014

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Cf: Rhieni Blwyddyn 9: Noson Llwybrau Dysgu: 12 Chwefror 2014 – 5:30 – 6:15 pm

Mae'n bleser gennym eich gwahodd i Noson Llwybrau Dysgu 14+ wrth i'ch plentyn baratoi i ddewis rhaglen astudio ar gyfer Medi 2014. Mae'n gyfnod cyffrous ond gall hefyd fod yn un sy'n codi penbleth wrth geisio penderfynu pa un yw'r llwybr dysgu mwyaf addas ar gyfer unigolyn.

Pwrpas y noson yw i'ch cefnogi chi fel teulu yn y broses o wneud y penderfyniadau hynny. Cyflwyniad byr i Rieni Blwyddyn 9 yw'r noson, a chewch gyfle i ddysgu mwy am y cyrsiau fydd ar gael ar gyfer eich plentyn yn 2014 – 2016. Bydd hefyd yn gyfle i chi ddysgu mwy am y Fframwaith Cymwysterau newydd sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr ddilyn llwybrau mwy perthnasol i arddulliau dysgu personol, talentau a diddordebau personol, tra ar yr un pryd ennill cymwysterau cyfwerth o ran safon â'r cyrsiau TGAU traddodiadol. Cewch gyflwyniad i'r newidiadau yn y ffyrdd o astudio ar gyfer TGAU a BTEC yn ogystal â chyrsiau eraill. Gobeithiwn y bydd y noson hon yn rhoi cefndir gwerthfawr i chi ar gyfer trafodaethau ehangach yn Noson Rieni Bl. 9 ar 17 Chwefror, 2014.

Noson fer fydd hi gyda chyflwyniad anffurfiol lle cewch gyfle i drafod a holi cwestiynau ynglŷn â chyrsiau Bl. 10 ac 11. Byddwch hefyd yn derbyn ein llyfryn Llwybrau Dysgu 14+ 2014 – 2016 ar y noson.

Os hoffech unrhyw wybodaeth bellach cysylltwch â ni yma yn yr ysgol ar bob cyfrif. Edrychaf ymlaen i drafod datblygiadau cyffrous y flwyddyn nesaf gyda chi ar 12 Chwefror 2014. Bydd y noson yn cael ei chynnal yn y Theatr, Canolfan Gydol Oes. Gallwch barcio ym maes bysiau'r ysgol – ond mae mynediad i'r Theatr drwy Ganolfan Dysgu Gydol Oes yn unig – gallwch gerdded i fyny drwy ganol y Campws.

Yn gywir,

Mrs. A. Williams
Pennaeth

- - - - - - ✂ - - - - -

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Pennaeth / Headteacher
Mrs. A. Williams B.A., C.P.C.P

Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ 01443 219580 🖷 01443 219596
gweinyddol@campwsgartholwg.org.uk
www.gartholwg.co.uk

4 February, 2014

Dear Parent / Guardian,

Re: Year 9 Parents Learning Pathways Evening: 12 February 2013 – 5:30 – 6:15 pm

It gives us great pleasure to invite you to our 14+ Learning Pathways Evening as your child prepares to make his/her choices of study for September 2014. This is an exciting time but also one that can pose a challenge in deciding which is the best learning pathway for an individual.

The purpose of the evening is to support you as a family in the decision making process. This is a short introductory evening for all Year 9 parents, when you will have the opportunity of learning more about the courses which will be offered for the study years 2014 – 2016. It will also give you the opportunity to learn more about the new Qualifications Framework which gives learners the opportunity to follow routes more suitable to their style of learning, their particular talents and interests, whilst still being able to achieve qualifications compatible in standard to the more traditional GCSE. You will have an introduction to the changes in GCSE, BTEC as well as other courses. We hope that the evening will pave the way for more in depth discussions with subject teachers in the Year 9 Parents' Evening on 17 February, 2014.

This is intended as a short informal evening for you to discuss and ask questions regarding Year 10 and 11 provisions. You will also receive a copy of the 2014 – 2016 14+ Learning Pathways booklet outlining the courses on offer.

If you would like any further information please do not hesitate to contact me at the school. I look forward to discussing next year's exciting developments with you on 12 February 2014. The evening will take place in the Theatre of the Lifelong Learning Centre. Parking is available at the school, but entrance to the Theatre is through the Lifelong Learning Centre Reception only. Please walk up through the centre of the Campus.

Yours sincerely,

Mrs. A. Williams
Headteacher

- - - - - - ✂ - - - - -